



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref HL/01408/14

Ann Jones AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2014

Annwyl Ann,

### **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar Gynigion i Sefydlu Cymwysterau Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mehefin, yn amgáu drafft ymlaen llaw o'r adroddiad ar waith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn y Broses Ddeddfu ar gynigion Llywodraeth Cymru i sefydlu Cymwysterau Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y cynigion ac am ei adroddiad buddiol wedyn. Hoffwn dderbyn eich gwahoddiad i ymateb i'r argymhellion a materion eraill yn yr adroddiad. Rwyf yn siŵr y bydd y Pwyllgor yn falch o nodi bod llawer o'r argymhellion yn adlewyrchu gweithredoedd y mae fy swyddogion eisoes yn eu gwneud wrth ddatblygu'r darpariaethau yn y Bil arfaethedig.

### **Argymhelliad A1**

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, yn wyneb fy Natganiad ar 2 Mehefin 2014, rwyf yn dal yn argyhoeddedig y dylid cadw at ein dyhead cenedlaethol hirdymor sef sefydlu corff cymwysterau i Gymru, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac sy'n dyfarnu a hefyd yn rheoleiddio cymwysterau. I ddechrau, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff cenedlaethol i reoleiddio cyrff dyfarnu ac i sicrhau ansawdd cymwysterau. Byddai angen deddfwriaeth bellach i roi pwerau dyfarnu i Gymwysterau Cymru.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai Cymwysterau Cymru ystyried pa mor addas i'r diben yw cymwysterau yng Nghymru a pha mor effeithiol ac effeithlon yw'r system cymwysterau. Dylai feithrin hyder ymhlith y cyhoedd. Gosododd yr Adolygiad o Gymwysterau yng Nghymru weledigaeth glir ar gyfer cymwysterau sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg. Gyda rhai cymwysterau, ac er mwyn symleiddio a chryfhau'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru, efallai y bydd yn bwysig dewis un darparwr i gydweithio â Chymwysterau Cymru i lunio a chyflwyno'r cymwysterau hynny i Gymru. Dyma pam rwy'n credu ei bod yn hanfodol, yn ogystal â'i swyddogaethau rheoleiddiol a sicrhau ansawdd, y dylai Cymwysterau Cymru feddu ar y p er hefyd i gomisiynu un neu ragor o gyrff dyfarnu i ddatblygu a chyflwyno cymwysterau i ddiwallu'r anghenion hyn. Dim ond gyrff dyfarnu a reoleiddir a fyddai'n cyflwyno cymwysterau o'r fath a byddent yn dod o dan yr un prosesau sicrhau ansawdd â chymwysterau eraill nas comisiynir.

Fy mwriad yw y dylai Cymwysterau Cymru ddal i adolygu ei berthynas â chyrff dyfarnu gyda'r nod o gyflwyno cynigion i'r Cynulliad yn y dyfodol, ar sail tystiolaeth, ynghylch sut y gallai ddatblygu ei allu i ddyfarnu cymwysterau yn y dyfodol.

### **Argymhelliad B1**

Mae annibyniaeth weithredol Cymwysterau Cymru yn un o'r cysyniadau sylfaenol sy'n sail i'm bwriad i sefydlu'r corff newydd y tu allan i'r Llywodraeth. Fy mwriad yw y dylai Cymwysterau Cymru fod yn atebol i'r Cynulliad yn bennaf mewn perthynas â'i swyddogaethau ym maes cymwysterau; bydd yn atebol i Lywodraeth Cymru yn bennaf o ran sut y mae'n gwario arian cyhoeddus.

### **Argymhelliad B2**

Cytunaf ei bod yn hanfodol na fydd y gwaith o sefydlu Cymwysterau Cymru yn andwyo'r rhaglen barhaus o ddiwygio cymwysterau. Efallai y bydd yn rhoi tawelwch meddwl i'r Pwyllgor o ddeall bod Is-adran wedi'i sefydlu ar wahân yn yr Adran Addysg a Sgiliau i reoli creu'r corff newydd a sicrhau y cedwir y cyfrifoldebau ar wahân i'r Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau. Wrth sefydlu'r Is-adran hon rydym wedi denu arbenigedd ychwanegol o amrywiol ffynonellau. Mae'r Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau yn dal i hyrwyddo rhoi ar waith yr argymhellion o'r Adolygiad o Gymwysterau.

### **Argymhelliad B3**

Mae Is-adran Pontio Cymwysterau Cymru wedi datblygu cynllun recriwtio mewn tair rhan, sydd â dau amcan sef sicrhau y bydd gan Gymwysterau Cymru ddigon o staff medrus ac y bydd y staff presennol, y mae a wnelo eu swyddogaethau â chymwysterau o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn cael chwarae teg gan roi sylw dyledus i delerau ac amodau eu cyflogaeth. Mae'r cynllun yn ystyried darpariaethau Datganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar drosglwyddo staff yn y sector cyhoeddus, sy'n mynnu y dilynir egwyddorion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) ar gyfer trosglwyddiadau o'r fath. Mae'r cynllun recriwtio yn rhan o Gynllun Pobl ehangach sy'n edrych ar yr holl faterion yn ymwneud â phobl sy'n deillio o sefydlu Cymwysterau Cymru.

### **Argymhelliad B4**

Nodir prif amcanion Cymwysterau Cymru yn glir ar wyneb y Bil. Cytunaf â barn y Pwyllgor y bydd ar Gymwysterau Cymru angen pwerau rheoleiddio eang. Y nod yw y dylai Cymwysterau Cymru allu penderfynu, trwy drafodaethau â Llywodraeth Cymru, pa gymwysterau y dylai ganolbwyntio arnynt – heb gyfyngiadau deddfwriaethol diangen.

### **Argymhellion – Gr p C**

Er fy mod wedi rhoi sylw i bryder y Pwyllgor y bydd pŵerau dyfarnu'n cael eu rhoi yn y Bil hwn, hoffwn, serch hynny, roi sylw i'r argymhellion yng Ngrŵp C gan eu bod yn dal yn ddilys yn fy marn i.

### **Argymhelliad C1**

Y bwriad yw y dylai Cymwysterau Cymru fod â phŵerau i reoleiddio cyrff dyfarnu a sicrhau ansawdd cymwysterau – academiaidd a galwedigaethol. Pan fydd gan Gymwysterau Cymru rôl o ran comisiynu cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd i Gymru, bydd y cymwysterau hynny'n dal yn destun trefniadau cadarn ar wahân ar gyfer eu hadolygu a'u cymeradwyo ac i'w monitro a'u hadolygu'n barhaus ar ôl eu cymeradwyo. Pa broses bynnag a ddefnyddir i ddethol un neu ragor o gyrff dyfarnu i ddylunio a/neu gyflwyno cymwysterau penodol, bydd y broses yn agored, teg a thryloyw. Bydd y rheidrwydd i gyrff dyfarnu a reoleiddir (boed yn rhai a gomisiynir neu beidio) gydymffurfio ag amodau rheoleiddiol yn cael ei nodi yn y Bil pan gaiff ei gyflwyno.

### **Argymhelliad C2**

Y bwriad yw y bydd cymwysterau a gymeradwyir yn dal i gael eu dyfarnu gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig ac y rheoleiddir y cyrff dyfarnu hynny gan Gymwysterau Cymru. Pan gomisiynwyd un neu ragor o gyrff dyfarnu i ddatblygu a/neu ddyfarnu cymwysterau i ddiwallu anghenion penodol Cymru, yna bydd angen i'r cyrff dyfarnu hyn, yn ogystal â dal i fodloni amodau rheoleiddiol, hefyd fodloni eu rhwymedigaethau dan gontract i Gymwysterau Cymru. Yn fy marn i, mae hyn y sicr o gryfhau gallu Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau yn addas i'r diben.

### **Argymhelliad C3**

Cytunaf y bydd y berthynas rhwng Is-adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn allweddol. Er fy mod yn hyderus y bydd fy swyddogion a Chymwysterau Cymru yn sicrhau y bydd perthnasau gwaith effeithiol yn cael eu sefydlu a'u cynnal, rwyf hefyd yn cynnig fframwaith a fydd yn mynnu bod Cymwysterau Cymru yn ystyried polisi Llywodraeth Cymru ac, yr un mor bwysig, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried cyngor gan Gymwysterau Cymru. Yn weithredol, mae dogfen fframwaith, sy'n diffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru wrthi'n cael ei datblygu.

### **Argymhelliad C4**

Ar hyn o bryd gall Llywodraeth Cymru achredu cymwysterau galwedigaethol ac academiaidd – nid yw'r ddeddfwriaeth yn gwahaniaethu rhyngddynt. Bydd gan Gymwysterau Cymru bŵer tebyg i gymeradwyo cymwysterau (academiaidd a galwedigaethol). O wybod na fydd Cymwysterau Cymru yn dyfarnu ei gymwysterau ei hun, bydd y gwrthdaro buddiannau posibl yn llai na'r un sy'n wynebu Awdurdod Cymwysterau'r Alban mewn perthynas â'i frand ei hun o gymwysterau galwedigaethol (y mae'n eu dyfarnu a'u cymeradwyo) ac y mae'n ei liniaru trwy gael pwyllgor achredu ar wahân. Serch hynny, rhagwelir y bydd Cymwysterau Cymru yn dymuno sefydlu ei strwythur ei hun o bwyllgorau i sicrhau y gwneir penderfyniadau gan wahanu dyletswyddau'n briodol.

### **Argymhelliad C5**

Rwy'n croesawu barn y Pwyllgor sef ei bod yn bwysig gweithio mewn ffordd strategol o ran cymwysterau hyfforddiant ac addysg alwedigaethol cychwynol yng Nghymru. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu rhai cymwysterau hyfforddiant ac addysg alwedigaethol

cychwynnol mewn sectorau allweddol a bydd gallu Cymwysterau Cymru i gomisiynu datblygiadau o'r fath yn un o'r dulliau gweithredu allweddol er mwyn galluogi strategaeth o'r fath i ddwyn ffrwyth.

### **Argymhelliad C6**

Yn yr un modd, bydd y pwerau comisiynu arfaethedig yn galluogi Cymwysterau Cymru i fynd i'r afael â bylchau yn y farchnad trwy gomisiynu cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau i lenwi unrhyw fylchau o'r fath. Y bwriad yw mai un o brif nodau Cymwysterau Cymru fydd sicrhau bod y system cymwysterau yng Nghymru yn effeithiol ac effeithlon. Un ffordd o fesur hyn yw sicrhau bod gennym ystod addas o gymwysterau.

### **Argymhelliad C7**

Mae fy swyddogion yn ystyried yn llawn y rôl y gall Cymwysterau Cymru ei chwarae mewn prentisiaethau. Mae gan Weinidogion Cymru b er eisoes dan ddeddfwriaeth bresennol i ddynodi corff arall yn 'Awdurdod Cyhoeddi' ar gyfer prentisiaethau. Os byddaf yn dod i'r casgliad mai dyma'r rôl y dylid ei rhoi i Gymwysterau Cymru, yna ni fydd angen unrhyw b er ychwanegol.

### **Ystyriaethau Eraill**

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei sylwadau buddiol mewn perthynas ag ystyriaethau ychwanegol. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor y rhoddir ystyriaeth lawn i bob un o'r materion a godwyd, wrth ddrafftio'r Bil, wrth baratoi'r memorandwm esboniadol ac wrth ddatblygu'r corff.

### **Casgliad**

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn gweld yr ymateb hwn yn fuddiol ac y byddant yn dawel eu meddwl fy mod yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau cyfnod pontio esmwyth wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth arfaethedig i sefydlu Cymwysterau Cymru ac wrth wneud y trefniadau gweithredol. Edrychaf ymlaen at gyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ystod Tymor y Cynulliad hwn ac at ymgysylltu â'r Pwyllgor yn y dyfodol.

*Best Regards*  
*Huw*

### **Huw Lewis AC / AM**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills